# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 23/02/01

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau )**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff hi ddatganiad ar y trafodaethau a fu rhwng ei hadran hi a CCETSW o safbwynt yr anawsterau sy'n wynebu myfyrwyr sy'n dilyn cwrs Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol (DipSW) i gael cefnogaeth gyllidol ddigonol. **W** (WAQ10049)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Diwylliant a Chwaraeon

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa drafodaethau a fu rhyngddi hi a Paul Murphy yngln â diwygio Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993; ac a wnaiff hi ddatganiad ar y mater. **W** (WAQ10050)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff hi gyllido astudiaeth bellach i’r posibilrwydd o ddarparu lonydd goddiweddyd neu lonydd ymlusgo ychwanegol ar yr A470 a’r A483 a’r A487 i wella amgylchiadau teithio ar ffyrdd Gogledd – De yng Nghymru. **W R** (WAQ10051)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa gynlluniau sydd ganddi i sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr epilepsi yn manteisio’n llawn ar ymdrechion mudiadau megis Epilepsi Cymru. **W** (WAQ10052)